

---

Electoral  
 Reform  
 Society  
Cymru

  **Clywed Ein**  
  **Lleisiau**

---

# Clywed Ein Lleisiau

Syniadau pobl  
ifanc ar gyfer  
addysg  
wleidyddol yng  
Nghymru

---

Jess Blair a  
Mat Mathias  
*Tachwedd 2018*

---

# Cynnwys

---

**3** Rhagarweiniad

---

**5** Llais person ifanc

---

**6** Argymhellion

---

# Rhagarweiniad



Jess Blair,  
Cyfarwyddwr,  
ERS Cymru

Os ydych chi'n berson ifanc sy'n byw yng Nghymru yn 2018, mae eich tirwedd wleidyddol wedi gweddnewid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yng nghyd-destun Brexit, Trump a ffug newyddion, mae mwy yn y fantol i bobl ifanc nag erioed wrth i ddigwyddiadau o'r fath effeithio'n uniongyrchol ar eu dyfodol.

Yng Nghymru, daw'r amser gwleidyddol seismig hwn ynghyd â chamau i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol. Y flwyddyn nesaf, bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i droi hyn yn realiti, ac mae'n debygol y bydd y bobl ifanc 16 oed gyntaf yn pleidleisio yn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021.

Yn y cyd-destun hwn, ni fu adeg well erioed i ailystyried rôl democratiaeth yn addysg. Mae gennym ni gyfle yma - cyfle i wneud pobl ifanc yn ddinasyddion gweithredol a rhoi llawer mwy o arbenigedd gwleidyddol iddynt na'r hyn roedd gan y gweddill ohonom ni pan aethon ni ati i bleidleisio am y tro cyntaf. Mae'r ffaith bod pobl ifanc, yn y bôn, yn gynulleidfa gaeth, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn yr ysgol, yn rhoi llwybr uniongyrchol i ni i ennyn diddordeb, addysgu a grymuso'r union bobl sydd wrth wraidd dyfodol Cymru.

Dros y misoedd diwethaf, mae 'Clywed Ein Lleisiau' wedi siarad â bron 200 o bobl ifanc am wleidyddiaeth, addysg wleidyddol a democratiaeth. Credwn ni fod y bobl ifanc hyn yn cynrychioli galw ehangach am newid. Mae arwyddocad 'ein' yn 'Clywed Ein Lleisiau' yn syml - dyma'r bobl ifanc rydyn ni wedi bod yn siarad â nhw. Dyma'u cyfle nhw i ddweud eu dweud a llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae ein sesiynau gyda phobl ifanc mewn 11 ysgol ledled Cymru wedi cael eu cyd-gynhyrchu. Mae hynny'n golygu ein bod ni wedi gofyn iddyn nhw am eu syniadau a'u hargymhellion ar sut mae gwella addysg wleidyddol yng Nghymru. Yna, pleidleisiodd pob dosbarth dros eu hoff argymhellion, ac aeth y

---

rheiny at banel o bobl sy'n gweithio mewn addysg a gwleidyddiaeth, athrawon a phobl ifanc er mwyn eu mireinio a'u paratoi i'w rhoi'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r bobl ifanc rydyn ni wedi siarad â nhw wedi dweud wrthym ni fod diffyg addysg wleidyddol ar hyn o bryd mewn ysgolion. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael ychydig iawn, os o gwbl. Eto i gyd, roedd awydd gwybod mwy er gwaethaf hyn. Mwy am y modd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae ymgyrchu a dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, a sut mae pethau yng Nghymru'n gweithio mewn gwirionedd. Hefyd, fe wnaeth bron pob un o'r ysgolion alw am well addysg gyllido i gyd-fynd â gwybodaeth am ddemocratiaeth, yn ogystal â mynnu profiadau mwy ymarferol o wleidyddiaeth. Y syniadau a gafwyd dro ar ôl tro oedd ynghylch yr angen am ffug etholiad cenedlaethol lle gallai pobl o dan yr oedran pleidleisio 'ymarfer' pleidleisio ar yr un pryd ag oedolion.

Ar hyn o bryd, i'r rhan fwyaf o bobl, dim ond y peth sy'n digwydd yn y cefndir yw gwleidyddiaeth. Mae angen i ni bontio'r bwlch rhwng gwleidyddiaeth a'r bobl a dangos mai ochr bersonol gwleidyddiaeth yw'r ffordd o ddechrau adeiladu'r bont honno. P'un ai gwleidyddion yn dod i mewn i ysgolion i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb, neu ysgolion yn cael cyfle i fynd ar daith i sefydliadau gwleidyddol fydd hynny, gall dangos ochr ymarferol democratiaeth i bobl ond ategu'r hyn mae modd ei ddysgu mewn ystafell ddosbarth.

Felly, daw'r syniadau rydyn ni'n eu cyflwyno yn 'Clywed Ein Lleisiau' yn uniongyrchol oddi wrth bobl ifanc ac ar eu cyfer. Galw am newid ydyn nhw, fel bod modd i genedlaethau'r dyfodol fod yn fwy parod na ni i ymdopi â democratiaeth sy'n cael ei newid a'i herio a bod yn rhan ohoni. Gobeithio bydd eu lleisiau'n cael eu clywed yn llawn.

**Jess Blair**  
**Cyfarwyddwr, ERS Cymru**

---

# Llais person ifanc



**Madison Phipps Magill,**  
Ysgol Uwchradd Bedwas

Mae Cymru'n symud ymlaen gyda'i Senedd Ieuenctid ac yn cyflwyno'r Bleidlais yn 16 oed, ond rydyn ni'n dal i weld nad yw pobl ifanc yn cael addysg ar wleidyddiaeth sy'n eu galluogi nhw i wneud penderfyniad a dewis deallus. Felly mae'n bwysig cynnwys addysg wleidyddol yn y cwricwlwm addysg.

Mae gen i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a dwi'n credu dylai plant a phobl ifanc gael grym i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a deall y broses wneud penderfyniadau, pwy yw'r pleidiau gwleidyddol a'r hyn sydd yn eu manifestos.

I mi, mae'r argymhelliad ynghylch cyflwyno gwleidyddiaeth yn yr ysgol yn wythnosol yn bennaf mewn ABCh a'r Fagloriaeth Gymreig yn allweddol. Dwi'n ei mwynhau, ond mae angen iddi fod yn briodol i oedran y myfyrwyr sy'n cael yr wybodaeth ac mae angen dechrau ym mlwyddyn 6.

Dwi'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r hyn rydyn ni'n ei ddweud. Pe bai modd i mi ofyn un cwestiwn i'r Ysgrifennydd Addysg, buaswn i'n gofyn sut bydd hi'n mynd i flaenoriaethu addysg wleidyddol yng Nghymru a faint o gynnydd mae angen ei wneud i roi hyn ar waith.

**Madison Phipps Magill, 14,**  
**Cyfranogwr yn y prosiect 'Clywed Ein Lleisiau'**

---

# Argymhellion

- Gwersi addysg wleidyddol statudol gydag isafswm disgwylidig o awr bob pythefnos gyda'r dysgu'n canolbwyntio ar y canlynol;
  - Pleidiau
  - Democratiaeth
  - Sefydliadau
  - Ymgyrchu(fydd yn cynnwys sesiynau ymarferol lle gall pobl ifanc gynnal ymgyrch o'r dechrau i'r diwedd ar fater sy'n bwysig iddyn nhw)
- Pecyn cymorth annibynnol i athrawon ei addasu a'i ddefnyddio mewn gwersi gwleidyddol i sicrhau eu bod nhw'n gynhwysfawr ac yn ddiddorol ac i sicrhau eu bod nhw'n cael eu creu heb duedd bleidiol
- Lle i drafod digwyddiadau cyfredol yn ystod cofrestru, dosbarthiadau addysg wleidyddol a gwersi ABCCh.
- Ffug etholiad cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc y dylid ei gynnal ar yr un pryd ag etholiadau'r Cynulliad.

- 
- Adnodd ar-lein adeg yr etholiadau i bobl gael gwybod am yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn eu hardal ac i allu holi cwestiynau iddynt. Dylai hyn fod mewn Cymraeg/Saesneg blaen sy'n addas ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.
  - 'Gwersi bywyd' i'w cynnwys fel rhan o wersi ABCh, gan gynnwys addysg ariannol gryfach ynghylch pethau fel trethi, cofrestru i bleidleisio a thalu biliau.
  - Gwell cefnogaeth i ysgolion allu croesawu amrywiaeth o wleidyddion, gan gynnwys adnodd i'w ddatblygu er mwyn i ysgolion hwyluso digwyddiad holi ac ateb gyda gwleidyddion ac addasiad o raglen 'Skype the Speaker' y Senedd, lle gall ysgolion ffonio eu gwleidyddion lleol. Dylai ysgolion sicrhau bod y myfyrwyr yn cael clywed amryw safbwyntiau.

ERS Cymru  
Baltic House  
Mount Stuart Square  
Cardiff  
CF10 5FH

Ebost: [cymru@electoral-reform.org.uk](mailto:cymru@electoral-reform.org.uk)  
Rhif: 02920 496 613  
Facebook: [erscymru](https://www.facebook.com/erscymru)  
Twitter: [@erscymru](https://twitter.com/erscymru)

Electoral  
 Reform  
 Society  
Cymru

**electoral-  
reform.org.uk**